# Cefnogi gofal grŵp effeithiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol, gan sicrhau ei fod yn brofiad cadarnhaol lle bydd unigolion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r safon yn cynnwys cyfrannu at ofal grŵp sy'n cefnogi anghenion corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y grŵp a'i aelodau, cyfrannu at roi rhaglenni a gweithgareddau gofal grŵp ar waith, a chyfrannu at asesu gofal grŵp.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth gyfrannu at weithredu ac asesu gofal grŵp effeithiol
2. mynd ati ag eraill i nodi sut y gall prosesau grŵp ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a thwf unigol
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i nodi eu dewisiadau a'u hanghenion ar gyfer rhaglenni grŵp
4. hybu a chefnogi annibyniaeth unigolion i gymryd rhan mewn rhaglenni a gweithgareddau grŵp
5. cefnogi unigolion a grwpiau i ddatblygu diwylliant cefnogol
6. annog unigolion i gydnabod a gwerthfawrogi gwerth cydweithio
7. helpu unigolion i ddefnyddio cyfleoedd a thechnegau ar gyfer rheoleiddio emosiynol wrth gydweithio
8. sicrhau diogelwch unigolion a'u cefnogi i deimlo'n rhan o grwpiau
9. cefnogi unigolion a grwpiau i nodi a datrys heriau
10. mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol ar unigolion yn y grŵp
11. cynorthwyo unigolion ac eraill i roi adborth ar brosesau gofal, effeithiau, a chanlyniadau grwpiau
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a mynd i'r afael â newidiadau i ymarfer gofal grŵp
13. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi gofal grŵp effeithiol
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr egwyddorion sy'n sail i weithgareddau gofal grŵp
2. sut mae cefnogi datblygiad gweithgareddau gofal grŵp sy'n gynhwysol ac sy'n cefnogi unigolion
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi gofal grŵp effeithiol
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar gefnogi gofal grŵp effeithiol
5. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar gymryd rhan mewn gofal grŵp
6. sut mae annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol
8. y mathau o weithgareddau gofal grŵp sy'n addas i'r grwpiau rydych chi'n gweithio gyda nhw
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi gofal grŵp effeithiol
10. y ffactorau i'w hystyried wrth werthuso ymarfer gofal grŵp
11. y gwrthdaro sy'n gallu codi rhwng dewisiadau unigolion mewn grwpiau a sut i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn
12. technegau i gefnogi rheoleiddio emosiynol mewn lleoliad gofal grŵp
13. yr effaith y mae profiadau gofal grŵp cadarnhaol a negyddol yn eu cael ar unigolion, ymddygiad grŵp a chydlyniant
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi gofal grŵp effeithiol
15. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi gofal grŵp effeithiol
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi gofal grŵp effeithiol
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol
18. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol, a sut i fynd i'r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi gofal grŵp effeithiol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD228

Cefnogi gofal grŵp effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD228 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal Grwp, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |